CIWB

**Tasg 3**

# India

1. Dangoswch India ar y map yma o’r byd. Chwiliwch mewn atlas os dydych chi ddim yn siŵr ble mae’r wlad.

   Dangoswch y brifddinas hefyd.



2. Chwiliwch am wybodaeth am India a llenwch y grid.

| | |
|---|---|
| Pobl – faint sy’n byw yno | |
| Iaith / ieithoedd | |
| Y tywydd | |
| Arian<br><br>Beth ydy gwerth yr arian yma yn erbyn y bunt neu’r ddoler? | |
| Gwybodaeth ddiddorol arall (1 ffaith) | |

| Geirfa | |
|---|---|
| prifddinas | capital city |
| iaith, ieithoedd | language, languages |
| gwerth | value |
| yn erbyn | against |

2. Gwnewch daflen am India – defnyddiwch y wybodaeth yn 1. a defnyddiwch luniau da hefyd.

3. Siaradwch gyda pherson arall am y wlad.
Dyma ychydig o help i chi:

| | |
|---|---|
| Y map | **Dyma ...** |
| Pobl – faint sy'n byw yno | **Mae ... o bobl yn byw yn ...** |
| Iaith / ieithoedd | **Maen nhw'n siarad ...** |
| Y tywydd | **Yn yr haf, mae hi'n ...**<br>**Yn y gaeaf, mae hi'n ...** |
| Arian<br><br>Beth ydy gwerth yr arian yma yn erbyn y bunt neu'r ddoler? | **... ydy arian y wlad.**<br><br>**Mae'r ... yn werth ... doler/ punt.** |
| Gwybodaeth ddiddorol arall<br>(1 ffaith) | **Mae ...**<br>**Roedd ...** |

4. Rydych chi'n mynd i India ac rydych chi eisiau newid £500 i arian y wlad.
Faint o arian y wlad ydych chi'n cael am £500?

Mae Dad yn rhoi £200 i chi ac rydych chi'n newid yr arian yma hefyd.

Faint o arian y wlad ydych chi'n cael am £200?

| Geirfa | |
|---|---|
| yr haf | (the) summer |
| y gaeaf | (the) winter |